# CYNGOR CYMUNED PISTYLL
# COFNODION CYFARFOD MISOL

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fawrth – 11eg o Orffenaf, 2023** |
| **AMSER** | **7 y.h.** |
| **LLEOLIAD** | **Festri Capel Isa, Llithfaen** |
| **CADEIRYDD** | **Lois Fychan** |

| | |
|---|---|
| **1.** | **CROESO** |
| | Croesawodd y Cadeirydd Lois Fychan **(LF)** bawb i'r cyfarfod, gan ymestyn croeso arbennig i Osian Williams (**OW**) sydd wedi ei gyfethol i gynrychioli Pistyll.<br><br>**<u>YN BRESENNOL:</u>**<br><br>Sianelen Pleming **(SP);** Griffith John Leslie Jones **(GJLJ);** Olwen Roberts **(OR);** William Jones **(WJ);** Gethin Jones **(GJ)**; Ynyr Ellis **(YE);** Cyng. Jina Gwyrfai **(JG)** a'r clerc Gillian Thomas **(GT).** |
| **2.** | **YMDDIHEURIADAU** |
| | **<u>DERBYNIWYD YMDDIHEURIADAU GAN:</u>**<br><br>Emlyn Williams **(EW);** Sara Williams **(SW).** |
| **3.** | **COFNODION CYFARFOD MEHEFIN 2023** |
| | **a) <u>CYFLWYNO A MABWYSIADU</u>**<br>Cynigwyd y cofnodion yn gywir gan GJLJ gyda LF yn eilio a phawb yn cytuno.<br><br>**b) <u>MATERION YN CODI</u>**<br><br>**1. <u>GOHEBIAETH GAN YMDDIRIEDOLAETH TIR BRO'R EIFL</u>**<br>Adroddodd y clerc ymateb yr ymddiriedolaeth i bryderon y Cyngor am ddiffyg gohebiaeth gyda'r aelodau am y cynllun a phryderon am gynnal rhan o ymgynghoriad mewn tŷ tafarn.<br>Gan fod yr ymateb yn ymosodol cytunwyd gohebu drwy'r Cynghorydd Lleol yn y dyfodol.<br><br>**2. <u>ARWYDDION LÔN RHOSYDD</u>**<br>Roedd y clerc wedi ail gyflwyno cais am arwyddion neu giât ar lon Rhosydd i'r Cyngor Sir. Esboniodd bod yr adran yng nghanol cyflwyno gwaith cyfreithiol cynllun 20mya ar gyfer ardal Arfon. Bydd gwaith pellach angen ei wneud cyn paratoi gwaith cyfreithiol Dwyfor a Meirionnydd ac mae hyn wedi rhoi straen a phwysau anferth ar yr uned Traffig.<br><br>O ganlyniad bydd unrhyw waith adolygu'r ffordd yn gorfod cael ei ychwanegu ar y rhestr aros ac nid oedd posib rhoi amserlen benodol.<br><br>Cytunwyd i drafod y mater eto fis Medi. |

| | |
|---|---|
| | **3.** **HARDDU - PWYLLGOR APÊL BLWYF PISTYLL - EISTEDDFOD BODUAN**<br>Adroddodd SP nad oedd cyfarfod pellach wedi ei gynnal tan ddydd Llun.<br><br>**4.** **Y LLAIN TIR TRWY'R PENTREF (CEIR YN PARCIO A'I DROI YN FWD)**<br>Nid oedd y clerc wedi cael ymateb gan y Cyngor Sir cytunwyd gwneud cais i'r Gofrestrfa Tir.<br><br>**5.** **OR - ANGEN BARBIO LONYDD LLITHFAEN**<br>Derbyniwyd ymateb gan yr adran priffyrdd yn adrodd bydd yr Adran yn ymgymryd â gwaith cynnal tiroedd ychwanegol yn yr wythnosau'n arwain at yr Eisteddfod Genedlaethol.<br><br>Yn ychwanegol i'r gwaith barbio ffyrdd gwledig rhaglenedig, ac i'r gwaith rhaglenedig trefol arferol o fewn ardaloedd 30/40mya bwriedir ymgymryd â thoriad ychwanegol o fewn ardaloedd 30/40mya yn ystod mis Gorffennaf, fel rhan o'r ymdrech i baratoi'r ardal cyn y digwyddiad.<br><br>Nid oedd y wybodaeth yn bodloni'r aelodau oedd gyda phryderon pellach am o'r dyfiant ar y palmentydd a'r waliau sydd yn rhwystro cerdded ac yn creu problemau diogelwch i deuluoedd gyda phramiau - y clerc i adrodd ymhellach<br><br>**6.** **GJLJ – POLYN BT**<br>Adroddodd GJLJ ei fod wedi cwrdd eto gyda'r swyddog ac esboniodd fod y gwaith yn parhau ar y rhestr disgwyl. Nid oedd amserlen benodol i gynnal y gwaith.<br><br>**7.** **JG – CAIS AM WIRFODDOLWYR I GODI SBWRIEL YN Y PENTREF.**<br>Adroddodd SP bod 10 gwirfoddolwyr wedi bod o amgylch y pentref ac wedi codi 6 llond bag o sbwriel. Adroddodd JG bydd posib i unigolion wneud cais am ddefnyddiau codi fydd yn hyrwyddo galluogi pellach. |
| **4.** | **DATGAN DIDDORDEB** |
| | Dim wedi ei ddatgan |
| **5.** | **DIWEDDARIADAU ASEDAU** |
| | Adroddodd WJ bod dwy o feinciau Pistyll angen coed newydd – Cytunodd OW rhoi sylw iddynt.<br><br>Cytunwyd rhoi bendith i wirfoddolwyr beintio meinciau Llithfaen.<br><br>Bin ail gychu bwyd yn y gysgodfa ger Llithfaen Isaf - y clerc i adrodd i'r Cyngor Sir. |
| **6.** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** |
| | **Rhif Cais: C23/0509/43/LL -** Llain 3, Cae Plas, , Llithfaen, Pwllheli, LL53 6PA<br>Cais llawn i godi tŷ 3 ystafell wely ar wahân gyda gwaith cysylltiol<br>**Dilyn a Darganfod**<br>Dim gwrthwynebiad - pryderon bod y lôn yn prysur gael ei gorboblogi ag anheddau sylweddol |

| | |
|---|---|
| **7.** | **ADRODDIAD YR ARCHWILWYR MEWNOL** |
| | Adroddodd y clerc farn yr Archwilwyr a chymeradwywyd eu hargymhellion. |
| **8.** | **DIFFIBLWR PISTYLL** |
| | Adroddodd GJ ac JG bod y cyfarfod safle a Tomos Hughes wedi bod yn ddefnyddiol dros ben.<br>Y clerc i ddarganfod ffynonellau o nawdd at yr ymgyrch a holi am gostau sefydlu dau beiriant.<br>Gwirfoddolodd GJ gyhoeddi ymgyrch y Cyngor |
| **9.** | **CYNNIG GAN GETHIN JONES I GEISIO NEWID RHEOLAU TAI TEG** |
| | Roedd JG wedi cyflwyno Cynnig i'r Cyngor Llawn ym mis Gorffennaf ond wedi gorfod tynnu yn ôl dros dro, ac yn chwilio am dystiolaeth i gryfhau'r cynnig.<br><br>Cytunodd i liniaru llythyr yn gofyn am dystiolaeth gan Gynghorau eraill i'r clerc ei gylchredeg. |
| **10.** | **SEDD WAG Y CYNGOR** |
| | Croesawodd yr aelodau Osian Williams oedd wedi ei gyfethol ar sedd wag y Cyngor i gynrychioli ward Pistyll.<br><br>Y clerc i'w hwyluso gyda dogfennau priodol y Cyngor |
| **11.** | **CARNGUWCH - CYNNIG CREU COETIR - YMGYNGHORIAD** |
| | Trafodwyd cynnwys yr ohebiaeth, derbyniwyd y sylwadau canlynol i'r clerc eu gyrru blaen:<br>• Cais am ohebiaeth yn y Gymraeg yn y dyfodol<br>• Pryderon bydd cloddia yn rhwystro golygfa resymol. Angen cadw 10 llath o lon Carnguwch i fynedfa Llithfaen fawr<br>• Pryderon am wreiddiau ym mharu a pheipiau carthffosiaeth sy'n mynd trwy'r cae<br>• Bydd y goedwig yn creu cartref i anifeiliaid gwyllt sef llwynogod, moch daear a.y.b.<br>• A fydd yna ymgynghori ymhellach e.e. gyda'r gymuned gyfan? |
| **12.** | **COED Y GARTH A CARNGUWCH FAWR – GWIRIO A DIDDYMU LLWYBR CYHOEDDUS** |
| | Wedi ei drafod yn flaenorol – dim gwrthwynebiad |
| **13.** | **Y GANOLFAN, LLITHFAEN** |
| | Derbyniwyd gohebiaeth gan Swyddog AHNE yn adrodd ei fod yn y broses o baratoi y cais i'r gronfa rhannu buddion ar gyfer adnewyddu'r ganolfan. Esboniodd bod costau'r holl waith yn eithaf |

| | |
|---|---|
| | sylweddol a'i fod yn gobeithio y gall y grantiau dalu am y rhan fwyaf o'r gwaith.<br>Gofynnodd i'r Cyngor ystyried roi cyfraniad ariannol tuag at y prosiect os byddai gwir angen ?<br>Trafodwyd oblygiadau'r Cyngor a chyfanswm y gronfa wrth gefn - cytunwyd mewn egwyddor. |
| **14.** | **MAES PARCIO'R EIFL** |
| | Dim i'w drafod |
| **15.** | **MATERION LLEOL** |
| | a) OR - Dim arwyddion yn hysbysebu bod Eglwys yng Ngharnguwch - SP am drafod gyda chyfeillion eglwys Carnguwch.<br>Y clerc i ofyn i adran llwybrau i wirio arwyddion llwybrau Carnguwch<br><br>b) LF - Cais wedi ei dderbyn gan y trigolion am balmant o Lithfaen i gyfeiriad Llanaelhaearn - Y Cais wedi ei wneud yn flaenorol ac esboniadau am ddiffyg cyllid wedi ei dderbyn gan y Cyngor Sir.<br>Y clerc i wneud cais am Lwybr o Gapel Isaf i Dyn Cae.<br><br>c) LF – Adroddodd LF am bryderon oedd wedi ei dderbyn gan drigolion am ddifrod i geir gan y geifr– cytunodd yr aelodau doedd dim all y Cyngor ei wneud.<br><br>d) OW - Cais am dwmpathau cyflymder ar gyfer Pistyll - plant mewn peryg wrth groesi i ddal bws - y clerc i adrodd i'r Cyngor Sir. |
| **16.** | **GOHEBIAETH A GWYBODAETH** |
| | a) ANHE – Les y Ganolfan<br>Wedi ei drafod uwch law.<br><br>b) Hyfforddiant Un Llais Cymru<br>Ni dderbyniwyd unrhyw gais i fynychu.<br><br>c) Rhaglen Waith Cynnal Tiroedd<br>Wedi ei drafod uwchlaw. |
| **17.** | **CYLLID** |
| | a) Cymeradwywyd y Cysoniad a Rhagamcanion 2023/24 |

| | | |
|---|---|---|
| **CYFRIF CYFREDOL MAWRTH 2023** | | £ 9,614.09 |
| **CYFRIF CADW MAWRTH 2023** | | £ 2,671.02 |
| **LLAI SIECIAU HEB YMDDANGOS YN Y BANC** | | |
| **GWARGED 2023 / 2024** | | £ 4,026.94 |
| **CRONFA'R CYNGOR** | = | **£ 16,312.05** |

**b) DATGANIADAU BANC**

| | | |
|---|---|---|
| **CYFRIF CYFREDOL - 01 o Fehefin i 30 o Fehefin 2023** | | |
| Balans Agoriadol | | **£14,973.29** |
| Derbyniadau | + | £0.00 |
| Gwariant | - | £542.15 |
| Balans Cau | = | **£14,431.14** |
| **CYFRIF CADW - 07 Fawrth i 6ef o Fa1 2023** | | |
| Balans Agoriadol | | £2,671.02 |
| Derbyniadau | + | £0.00 |
| Gwariant | - | £0.00 |
| Balans Cau | = | **£2,671.02** |
| | = | **£17,102.16** |

**LLAI TALIADAU HEB EU CYFLWYNO YN Y BANC**

| | | | |
|---|---|---|---|
| - | Yswiriant BHIB | 201278 | £ 520.66 |
| | | = | **£ 520.66** |

**c) TALIADAU I'W CYMERADWYO**

| | | | |
|---|---|---|---|
| - | Gillian Thomas | 201282 | £ 269.45 |
| | | = | **£ 269.45** |

| | |
|---|---|
| **18.** | **CYFARFOD NESAF Y CYNGOR** |
| | 12fed o Fedi 2023 – Capel Isaf am 7y.h |